



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

'DRONING ON'

Cyflwyniad ymarferol i ddronau ac archaeoleg

Daniel Hunt, Ymchwilydd CHERISH, a Toby Driver, Uwch Ymchwilydd (Arolygu o'r Awyr)
Prosiect CHERISH, [Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru](#)



© Y Goron: Y PROSIECT CHERISH 2019. Cynhyrchwyd gan ddefnyddio arian o'r UE drwy Raglen Gydweithredu Iwerddon-Cymru 2014-2020. Gellir cyrchu'r holl ddeunydd yn rhad ac am ddim drwy'r Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae Cerbydau Awyr Di-beilot (Unmanned Aerial Vehicles (UAVs)) neu ddronau wedi chwyldroi arolygu archaeolegol, ffotograffiaeth o'r awyr lefel-isel, a fideo. Pan ddefnyddir hwy yn ddiogel maent hwy'n arf grymus a chost-ffeithiol ychwanegol ym 'mhecyn offer' yr arolygwr. Mae apêl aruthrol dronau wedi arwain at dynhau'r rheoliadau ond mae llawer o sefydliadau'n awyddus i brynu eu dronau eu hunain a hyfforddi staff i'w gweithredu.

[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Yn y gweithdy hwn, cyflwynir hanfodion dronau gan ddau beilot drôn, wedi'u cymeradwyo gan y CAA, o Brosiect CHERISH Iwerddon-Cymru. Mae'r gweithdy ar gyfer pobl sy'n ystyried prynu drôn, sy'n cael eu hyfforddi i hedfan un, neu sy'n awyddus i ddysgu mwy.

Rhoddir sylw i'r cyfarpar sy'n angenrheidiol i ymgymryd ag arolygon ffotogrametrig o'r awyr ac i'r gwaith papur i'w lenwi a'r gweithdrefnau i'w dilyn cyn dechrau hedfan, gan gynnwys Llawlyfr Gweithrediadau, yswiriant, 'cod y drôn', a hyfforddiant achrededig ar hedfan dronau'n ddiogel. Os bydd y tywydd yn ffafriol, byddwn yn arddangos hediad arolygu syml yn yr awyr agored gan ddefnyddio'r app DJI GroundStation cyn mynd yn ôl i'r gweithdy i ddangos hanfodion prosesu delweddau a chynhyrchu modelau 3D, a rhai o'r tasgau ôl-hediad angenrheidiol.

Gobeithiwn y bydd staff Prosiect CHERISH o Arolwg Daearegol Iwerddon yn gallu ymuno â ni ac, os felly, byddwn yn gallu trafod galluoedd dronau adain-sefydlog hefyd.

Bywgraffiad

Ar ôl gweithio i sawl uned archaeolegol fasnachol, a hyfforddi gyda Historic England, fe ymunodd Daniel Hunt â'r tîm CHERISH yn CBHC yn 2017 fel Ymchwilydd. Dan oedd yn bennaf cyfrifol am ddatblygu gwaith arolygu â dronau'r Prosiect CHERISH fel Prif Beilot, gan oruchwylio cynhyrchu modelau ffotogrametrig. Mae hefyd yn arbenigo mewn laser-sganio daearol a gwneud arolygon dadansoddol o wrthgloddiau.

Dr Toby Driver yw Uwch Ymchwilydd (Arolygu o'r Awyr) y Comisiwn Brenhinol. Bu'n rheoli rhaglen ragchwilio Cymru gyfan am ugain mlynedd. Mae hefyd yn Ymchwilydd gyda phrosiect CHERISH Iwerddon-Cymru. Cymhwysodd fel peilot drôn yn 2019.



CHERISH

Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir
Climate Change and Coastal Heritage
Athrú Aeráide agus Oidhreach Chultúrtha

